



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Ein cyf/Our ref:
Eich cyf/Your ref: WG 24179

Tŷ Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
martyn.evans@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
martyn.evans@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn/Phone:
0300 065 3000

Y Gangen Ddŵr (Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd)
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

30 Ebrill 2015

Annwyl Syr / Fadam,

YMGYNGHORI AR Y SAFONAU ANSTATUDOL DROS DRO ARFAETHEDIG AR GYFER SYSTEMAU DRAENIO CYNALIADWY (SUDS) YNG NGHYMRU

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar y safonau anstatudol dros dro arfaethedig ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn ymlaen o'r gwaith sylweddol a wnaethom â Llywodraeth Cymru i helpu i oleuo'r safonau a'r canllawiau sydd mewn golwg.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru ac amgaewn ein hymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio fel corff rheoleiddio, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, awdurdodau lleol a chymunedau i helpu i ddarparu polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Defnyddiwn ddull ecosystem o hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n darparu manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol i bobl Cymru.

Gall llawer o'r systemau draenio confensiynol presennol achosi problemau llifogydd, llygredd a difrod i'r amgylchedd. Hefyd, gwelsom nad yw llawer ohonynt yn gynaliadwy yng nghyd-destun y sialensau ehangach a ddaw yn sgîl newid hinsawdd, twf y boblogaeth a threfoli. Mae systemau SuDS yn golygu ystyried ffactorau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol hirdymor mewn penderfyniadau ar opsiynau draenio.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydnabod bod angen darparu systemau draenio sy'n gallu ymdopi â'r sialensau presennol a rhai yn y dyfodol. Drwy ddysgu o enghreifftiau rhyngwladol a gweithio mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid, cefnogwn ddarparu systemau SuDS ar raddfa eang mewn datblygiadau newydd a thrwy ôl-osod mewn datblygiadau presennol.

Gwyddom ei bod yn haws i systemau SuDS addasu a'u bod yn fwy hyblyg nag atebion confensiynol, er mwyn gallu addasu ac ymdopi yn y dyfodol â'r newid hinsawdd a newidiadau eraill mewn ardaloedd trefol. Credwn y gall y system hon greu cymunedau gwyrddach, glanach a mwy cynaliadwy i ni heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a darparu rheolaeth fwy integredig a chynaliadwy o adnoddau naturiol.

Gyda hyn mewn golwg, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r penderfyniad i gynnig safonau anstatudol dros dro ar gyfer SuDS yng Nghymru cyn cychwyn ar Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010).

Credwn y bydd y dull hwn yn gadael i'r holl randdeiliaid perthnasol brofi'r safonau anstatudol dros dro lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, a helpu i fod yn fwy cyson wrth ddarparu systemau SuDS ar draws Cymru. Gobeithiwn y bydd hyn yn arlwyyo'r ffordd er mwyn gallu gweithredu'r safonau statudol ar gyfer SuDS yng Nghymru.

Cael pobl i ddefnyddio mwy ar SuDS ar draws Cymru yw un o'r prif sialensau a wynebwn.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio â Llywodraeth Cymru i weithredu ac adolygu'r safonau anstatudol dros dro arfaethedig, a chyda rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo atebion draenio cynaliadwy ar draws Cymru.

Cysylltwch â martyn.evans@naturalresourceswales.gov.uk os dymunwch drafod unrhyw agwedd ar ein hymateb yn fwy manwl.

Yn gywir iawn,



Robert Vaughan
Rheolwr Defnydd Tir Cynaliadwy
Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1: Ydy'r Safonau Cenedlaethol arfaethedig, a'r canllawiau cysylltiedig, yn glir i'w deall ac yn ymarferol i'w gweithredu?

- 1.1 Mae trefn y Safonau'n glir, maent yn hawdd eu deall ac wedi'u gosod allan mewn dilyniant rhesymegol. Mae'r adran "*Sut y mae'r Safonau Cenedlaethol yn gweithio*" (tudalen 4) yn rhoi crynodeb byr sy'n nodi'n union beth i'w ddisgwyl drwy gydol y safonau arfaethedig.
- 1.2 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n falch bod y safonau arfaethedig yn ystyried peryglon llifogydd, maint ac ansawdd y dŵr ffo, a gwerth amwynder ac esthetig dŵr wyneb yn yr amgylchedd trefol.
- 1.3 Mae'r maen prawf yn Safon 2 (rheolaeth hydrologig o ddŵr ffo ar yr wyneb), a'r canllawiau cysylltiedig, yn cyfeirio at gyfnod dychwelyd 1 mewn 100 mlynedd ar gyfer asesu'r perygl llifogydd dŵr wyneb a chanlyniadau llifogydd. I bwrpas ymarferol, awgrymwn fod y cyfnod dychwelyd hwn yn adlewyrchu'r polisi cenedlaethol presennol ar llifogydd dŵr wyneb, megis TAN15. Gweler ein hymateb i Gwestiwn 4 am fwy o fanylion.

Cwestiwn 2: A oes unrhyw agweddau eraill ar ddraenio cynaliadwy y teimlwch y dylai gael eu cynnwys yn y safonau?

Bioamrywiaeth ac Amwynder

- 2.1 Rydym yn croesawu Safon 4 ar gynyddu'r manteision i fioamrywiaeth ac amwynder, a'r egwyddor gyffredinol o "*ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy wella ansawdd dyluniad trefol, gan harddu manau amwynder a darparu cynefinoedd a choridorau bywyd gwyllt*".
- 2.2 Credwn y gallai'r Safon hon bwysleisio mwy ar y rôl benodol y gallai coed ei chwarae yn y "trên" rheoli. Mae coed a gerddi glaw'n chwarae rôl hollbwysig mewn "dal" glaw pan fo'n disgyn, gan storio dŵr dros dro a gwanhau'r rhedlif, cyn gadael i'r dŵr ymdreiddio i'r ddaear a gwella'i ansawdd. Mae canopi'r coed hefyd yn rhoi cysgod naturiol ac yn lliniaru effaith y gwres mewn trefi, tra bod gwreiddiau coed yn amsugno dŵr mewn priddoedd dirlawn.
- 2.3 Mae'r nodweddion penodol hyn, ynghyd â'u manteision helaeth i gymdeithas a'r economi'n gosod coed ar wahân fel rhan unigryw o seilwaith gwyrdd. Mae cynlluniau sydd ar y gweill i ôl-osod systemau SuDS yn Llanelli a Grangetown (Caerdydd) yn enghreifftiau da o'r dull integredig lle mae coed yn chwarae rôl bwysig mewn rhai agweddau ar y dyluniad.
- 2.4 Gyda hyn mewn golwg credwn fod angen mwy o ganllawiau ar hyn ar gyfer y safonau arfaethedig, er mwyn rhoi'r wybodaeth i ddatblygwyr a pheirianwyr allu

dylunio, plannu a chynnal coed cryfion ac effeithiol ynghyd â haenau o laswellt, llwyni a chaeau.

Cynnal a chadw a mabwysiadu

- 2.5 I fod yn systemau gwirioneddol gynaliadwy, credwn y dylai SuDS fod yn amgylcheddol ac ariannol gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cytundebau cynnal a chadw a mabwysiadu hirdymor.
- 2.6 Bydd cyflwyno safonau anstatudol dros dro'n gosod llwyfan i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am y broses o gymeradwyo a mabwysiadu draeniau'n gallu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol pan fydd Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) yn cychwyn.
- 2.7 Credwn y dylai'r safonau arfaethedig atgyfnerthu bod angen i bob rhanddeiliad gytuno ar beth fydd eu cyfrifoldebau hirdymor ar gyfer datblygiadau SuDS penodol.

Ystyried yn fuan yn y broses gynllunio

- 2.8 Cefnogwn y farn fod angen ystyried systemau SuDS yn fuan yn y broses gynllunio.
- 2.9 Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai ystyriaethau technegol, fel y trefniadau arolygu a chynnal a chadw, cytundebau mabwysiadu, a gosod a chymhwyso asesiadau technegol cymhleth, yn anodd eu cyflawni yng nghamau cyntaf y broses gynllunio. Gallai hyn fod oherwydd diffyg dylunio manwl, a'r ffaith ei bod yn anymarferol llunio cytundeb cyfreithiol ar gyfer rhywbeth nad oes ganddo ganiatâd cynllunio eto.
- 2.10 Awgrymwn fod Canllaw 4.10 (tudalen 51) o'r safonau arfaethedig yn cael ei diwygio i adlewyrchu hyn.

Ôl-osod mewn datblygiadau sydd eisoes ar waith

- 2.11 Rydym yn cydnabod bod datblygiadau newydd yn cynnig cyfleoedd pwysig i reoli dŵr wyneb yn well na dulliau confensiynol. Fodd bynnag, nid yw datblygiadau newydd ond yn rhan fach o'r amgylchedd trefol presennol.
- 2.12 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n credu y dylai'r safonau cenedlaethol ar gyfer SuDS yng Nghymru gynnwys ôl-osod mewn datblygiadau presennol. Mae parhau gyda'n dull presennol o reoli dŵr wyneb yn ein hardaloedd trefol presennol, drwy greu neu ehangu systemau confensiynol fel carthffosydd, yn parhau gydag atebion anghynaliadwy na fedrant addasu i ddyfodol sy'n newid.

Rheoli'r Perygl Llifogydd

- 2.13 Cefnogwn y cyfeiriad at TAN15 o ran peryglon llifogydd a ddaw o'r afonydd a'r môr, a bod angen cyflwyno Aseiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA). Fodd bynnag, nid yw'r safonau arfaethedig yn cynnwys sawl cyfeiriad at sut y mae TAN15 yn ystyried llifogydd dŵr wyneb ac yn cymell defnyddio SuDS.

- 2.14 Cynghorwn yn gryf fod cyfeiriad yn cael ei wneud at yr adrannau canlynol yn TAN15.
- A1.17, Rhan 5 a Rhan 12: Bod angen i FCA gynnwys asesiad o berygl llifogydd dŵr wyneb.
 - Adran 2.11: Dylai datblygiadau newydd ddarparu ar gyfer newidiadau mewn peryglon llifogydd yn y dyfodol. Er enghraifft, drwy ystyried y newid hinsawdd. Gallai hyn gynnwys sicrhau bod systemau draenio priodol yn eu lle i ddarparu ar gyfer glaw trymach ac amlach.
 - Adran 11.9: Cyfeiriad at ystyriaethau dŵr ffo.
 - Adran 11.3: Rhaid i ddatblygwyr ddarparu'n ddigonol ar gyfer cynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb yn y dyfodol.

Rheoli Adnoddau Dŵr

- 2.15 Nid yw'r safonau arfaethedig yn cydnabod yn llawn pa mor bwysig yw rheoli adnoddau dŵr ar gyfer rhai agweddau ar SuDS.
- 2.16 Credwn y gallai'r safonau arfaethedig bwysleisio bod angen i randdeiliaid perthnasol annog pobl i fod yn fwy cynnil ac i aildddefnyddio dŵr, lleihau'r galw am ddŵr a gadael i gwmnïau roi sylw gwell i faterion fforddiadwyedd gyda'u cwsmeriaid.

SuDS Gwledig

- 2.17 Nid yw'r safonau arfaethedig yn cydnabod yn llawn pa mor bwysig yw elfennau SuDS gwledig.
- 2.18 Mewn amgylchedd gwledig, gall systemau SuDS helpu i reoli effaith andwyol glaw ar gaeau lle mae dŵr ffo'n fygythiad mawr i'r fflora, ffawna ac i statws cemegol ein dyfroedd wyneb. Drwy ddal dŵr ffo ar ei ffordd a thrapio llaid cyn iddo adael y caeau, mae SuDS gwledig yn helpu i reoli a chynnal ansawdd dŵr da drwy atal colli pridd, cemegion, maethynnau ac organebau carthol.
- 2.19 Mantais arall systemau SuDS gwledig yw y medrant ddal dŵr dros dro ac arafu ei lif, fel a ddangoswyd gyda'r prosiect Pontbren. Gall hyn leihau llifogydd lleol a darparu cynefinoedd acwatig gwerthfawr ar ffurf micro-wlyptiroedd ar gyfer bywyd gwylt ar dir fferm, gan hefyd annog dŵr i raeadru ar i lawr ac ail-lenwi dyfrhaenau.

Cwestiwn 3: Mae'r canllawiau'n cynnwys cyfeiriadau at nifer o ffynonellau gwybodaeth ychwanegol am SuDS. Ydych chi'n gwybod am unrhyw gyfeiriadau eraill y gellid eu cynnwys?

- 3.1 Mae Canllaw 1.21 yn nodi "*Dylid asesu'r peryglon posibl yn unol â chanllawiau Polisi Cynllunio Cymru ar ddelio â thir ansefydlog a halogedig*". Cynghorwn fod yr adran hon yn cyfeirio at "*Rheoli datblygu a thir halogedig*" fel ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae hwn yn manylu ar y broses asesu risg a chyflwyno newidiadau i safle a allai arwain at benderfynu bod tir yn halogedig.
- 3.2 Dim ond Canllaw 3.19 yn y safonau arfaethedig sy'n sôn bod efallai angen trwydded amgylcheddol. Awgrymwn fod tablau G3.3 a G3.4 (tudalen 41) hefyd yn cyfeirio at drwyddedau a'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (2010).
- 3.3 Mae Canllaw 3.10 yn cyfeirio at ganllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd ar y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (2010) gyda dolen at wefan Asiantaeth yr Amgylchedd. Awgrymwn fod cyfeiriad yn cael ei wneud at ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 3.4 Mae Canllaw 3.19 (tudalen 35) yn nodi "*na fydd dŵr wyneb yn cael rhedeg o safleoedd gyda pheryglon uchel (H) yn unol â Thabl G3.3 a rhaid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru am ganllawiau ar y gofynion i ddiogelu'r amgylchedd, lle bydd efallai angen trwydded amgylchedd*". Cynghorwn fod tabl G3.4 yn berthnasol i hyn, oherwydd mae'r gofyniad i gael trwydded yr un mor ddilys ar gyfer rhedlif o ardaloedd peryglon uchel a allai gyrraedd dŵr daear.
- 3.5 Mae Tabl G3.2 yn darparu ffynonellau gwybodaeth am sensitifrwydd. Ar gyfer Ardaloedd Diogelu Tarddiad Dŵr, mae'r ddolen a ddangosir yn mynd i dudalen gwe "*What's in your backyard?*" Asiantaeth yr Amgylchedd. Cofiwch y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, cyn bo hir, yn lansio ei wylwr mapiau allanol ei hun i ddangos y wybodaeth yma ar gyfer Cymru.
- 3.6 Mae Safon 3.5 (tudalen 116) yn cyfeirio at integreiddio coed mewn SuDS. Awgrymwn fod yr adran hon yn cyfeirio at ganllawiau '*Trees in Hard Landscapes*' y Grŵp Gweithredu Coed a Dylunio. Mae'r rhain yn trafod y sialensau a'r atebion ar gyfer integreiddio coed mewn ardaloedd trefol a hefyd yn cynnig opsiynau dylunio, technegol a phroses.
- 3.7 Cynghorwn fod cyfeiriad yn cael ei wneud at '*Diogelu Dŵr Daear: Egwyddorion ac Arferion*' gan Asiantaeth yr Amgylchedd, a elwir yn aml yn GP3. Mae'r egwyddorion hyn hefyd yn berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n cynnwys datganiadau sefyllfa ynghylch defnyddio SuDS mewn mannau sensitif penodol.
- 3.8 Awgrymwn fod cyfeiriad yn cael ei wneud at 'SuDS Gwledig' Asiantaeth yr Amgylchedd (Gorffennaf 2012). Mae'r ddogfen hon hefyd yn berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cwestiwn 4: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi eu hateb yn benodol, gallwch wneud unrhyw sylwadau yma.

- 4.1 Mae'r safonau arfaethedig yn gwneud sawl cyfeiriad at y term "cyrff dŵr daear". Dymunwn egluro fod "corff dŵr daear" yn derm penodol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Credwn y dylai'r safonau arfaethedig fod yn berthnasol i'r holl ddyfroedd daear yng Nghymru. Awgrymwn dynnu'r termau "corff" neu "gyrff" oni bai y gwneir cyfeiriad penodol at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.
- 4.2 Cynghorwn fod cyfeiriad yn cael ei wneud at ein datganiad sefyllfa ar ddefnyddio systemau ymdreiddio dwfn i waredu dŵr wyneb ac elifion. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n poeni ynghylch defnyddio'r systemau hyn oherwydd gall y rhedlif lifo heibio i haenau pridd a gadael i lygryddion ymdreiddio'n syth i ddŵr daear. Mae ein datganiad sefyllfa'n nodi'r paramedrau a ddefnyddiwn i gytuno ar eu defnyddio. Mae'r rhain i'w cael yn '*Diogelu dŵr daear: Egwyddorion ac Arferion*' (tudalen 87).
- 4.3 Mae Canllaw 1.14 (tudalen 10) yn y safonau arfaethedig yn gwneud sawl cyfeiriad at ddigwyddiadau "eithafol". Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ystyried bod hwn yn ddigwyddiad llifogydd 0.1% (1 mewn 1000 o flynyddoedd), yn unol â TAN15.
- 4.4 Awgrymwn ddefnyddio'r gair "sylweddol" yn lle "eithafol" yng nghyd-destun y ddogfen hon. Mae adrannau eraill yn y cynigion lle defnyddir "eithafol" yn cynnwys:
- Tudalen 20 (S2 – Pwyntiau 3 a 4)
 - Tudalen 29 (G2.37 a G2.40)
 - Page 31 (G2.47)
- 4.5 Canllaw 1.8 (tudalen 9): Gwneir cyfeiriad at gyfnod dychwelyd "priodol". Awgrymwn fod Llywodraeth Cymru'n ystyried cyfnod dychwelyd critigol penodol ar gyfer dylunio dyfeisiau ymdreiddio.
- 4.6 Safon 2, Pwynt 5 (tudalen 20): Credwn y dylid aileirio hwn i ddweud: *ar gyfer digwyddiadau hyd at ac yn cynnwys y 1% (1 mewn 100 mlynedd) gan lwfa ar gyfer y newid hinsawdd dros fywyd y datblygiad a gwerthuso eu heffaith*".
- 4.7 Canllaw 2.23 (tudalen 27): Dylai hyn nodi'r 1% (1 mewn 100 mlynedd) gan lwfa ar gyfer y newid hinsawdd dros fywyd y datblygiad.
- 4.8 Canllaw 2.24 (tudalen 27): Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gofyn bod y cynigion yn nodi'n gliriach pa gyfnod dychwelyd y dylid asesu canlyniadau llifogydd yn ei erbyn ar gyfer systemau storio llifogydd dros dro. Mae'r cynigion yn nodi "ystod briodol" ond credwn y byddai cael trothwy'n fanteisiol. Yn ogystal, byddai angen i'r ystod cyfnodau dychwelyd nodi "hyd at ac yn cynnwys y digwyddiad llifogydd 0.1% (1 mewn 1000 o flynyddoedd)", yn unol â gofynion TAN15.
- 4.9 Canllaw 2.28 (tudalen 28): Credwn y dylai'r adran hon ystyried opsiynau eraill yn lle storio tanddaear. Mewn theori mae systemau tanddaearol yn swnio'n syniad da, ond yn ymarferol medrant fod yn aneffeithlon oherwydd mai ond hyn a hyn o ddŵr sy'n gallu mynd i'r system yn hawdd, yn ogystal â phroblemau mynediad a chynnal a chadw posibl.

- 4.10 Canllaw 2.37 (tudalen 29): Dylai'r gwaith o reoli llifogydd dŵr wyneb o fewn y ffiniau datblygu asesu'r peryglon hyd at ac yn cynnwys y digwyddiad 0.1% (1 mewn 1000 o flynyddoedd) i asesu canlyniadau a rheoli llifogydd. Fel arfer mae storio (agored) ar y safle wedi'i ddylunio ar gyfer digwyddiad 1% (1 mewn 100 mlynedd).
- 4.11 Canllaw 3.13 (tudalen 34): Cynghorwn fod y gair "oddeutu" yn cael ei ddileu o'r frawddeg: *"Ar gyfer digwyddiadau glaw mwy nag oddeutu'r cyfnod dychwelyd 1 mewn 1 mlynedd"*.
- 4.12 Canllaw 3.2 (tudalen 37): Credwn y dylid cyfeirio at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wrth geisio gwybodaeth am statws ecolegol cyrff dŵr.
- 4.13 Mae Safon 4 yn nodi nad oes angen cyflwyno rhywogaethau ymledol wrth ddylunio SuDS. Fodd bynnag, nid yw'r cynigion yn ystyried camau fydd efallai'n ofynnol i reoli rhywogaethau ymledol sydd eisoes yn bresennol ar safle, a allai ledu o ganlyniad i fwy o gysylltedd dŵr.